

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop

Mae cyfanswm buddsoddiad cronfeydd yr Undeb Ewropeaidd i ymchwil bellach yn fwy na £500 miliwn. Erbyn diwedd y rhaglen weithredol rhagwelir y bydd portffolio cyfredol Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop wedi darparu £230 miliwn mewn o gyllid ymchwil cystadleuol ac arloesi, gan gefnogi nifer o brosiectau a dod â busnesau a phartneriaid academiaidd at ei gilydd i drosi ymchwil academiaidd yn gynnyrch arloesol. Mae'r buddsoddiadau hyn yn cael effaith arwyddocaol gan chwarae rhan allweddol mewn datblygiadau sy'n torri tir newydd, cefnogi prosiectau unigryw, datblygu technolegau cyfreithiol, cefnogi mynediad cynhwysol i gyfiawnder a helpu i fynd i'r afael â throseddau seiber. Ar ben hynny darparwyd cymorth ychwanegol i ymateb i argyfwng COVID-19.

Mae £119 miliwn o gyllid yr Undeb Ewropeaidd yn cefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni, fel cynlluniau ynni cymunedol a gwelliannau effeithlonrwydd ynni i gartrefi aelwydydd ar incymau isel, gan leihau tlogi tanwydd ac arwain Cymru at ddyfodol carbon isel. Mae hyn yn cynnwys buddsoddiad o £74 miliwn i ymchwilio a datblygu ynni morol, gan sefydlu safleoedd arddangos a phrofi yng ngogledd a gorllewin Cymru, gan gefnogi cwmnïau Cymreig a rhyngwladol i ddatblygu a phrofi technoleg ynni morol yng Nghymru.

Mae Cymru wedi cael budd drwy'r cronfeydd strwythurol. Nod Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop ydi lleihau problemau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ardaloedd, gyda ffocws penodol ar ddatblygu trefol cynaliadwy.

Prif flaenoriaethu Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop:

- Ymchwil ac arloesi
- Ysfa gystadleuol mentrau bach a chanolig
- Ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni
- Cysylltedd a datblygu trefol



YMCHWIL ac ARLOESI

Mae cydweithio a gweithio mewn partneriaeth wedi bod yn allweddol i ddod â'r byd academiaidd, myfyrwyr, unigolion lleol, sefydliadau a busnesau at ei gilydd i rannu gwybodaeth, arbenigedd a sgiliau i roi hwb i'r economi sy'n gyd-ddibynnol ar amgylchedd, cymdeithas a diwylliant i gynnal mentrau datblygu hirdymor.

Mae cyflawni prosiectau ar y cyd â sefydliadau addysg uwch a diwydiannau yn darparu nifer o fuddion wrth ddefnyddio Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop gan ei fod yn caniatáu cyflawni prosiectau ar raddfa fwy, gan eu galluogi i recriwtio mwy o ymchwilwyr a chaffael mwy o gyfarpar.

Isod fe geir rhestr o'r prosiectau Blaenoriaeth 1 a gyllidwyd drwy'r cyllid Ymchwil a Datblygu Ewropeaidd yng ngogledd Cymru ynghyd â'u hamcanion penodol, i gynyddu cystadleurwydd a chyllid ymchwil preifat a throsi ymchwil ac arloesi yn gynnyrch, prosesau ac yn wasanaethau newydd a masnachol. Cofiwch gyfeirio at rai o'r astudiaethau achos a mwy o wybodaeth am y prosiectau.

Blaenoriaeth 1 ERDF: YMCHWIL AC ARLOESI

Amcanion Penodol: Bod yn fwy cystadleuol a chynyddu cyllid ar gyfer ymchwil preifat
Troï ymchwil ac arloesedd yn gynnyrch, prosesau a gwasanaethau masnachol newydd a gwell

Sêr Cymru II

Gweithio gyda chyllid Horizon 2020 i barhau i wella'r cynnydd gallu mewn ymchwil arbenigol mae'r cynllun hwn eisoes wedi ei gyflawni, ac annog a chyflymu cydweithrediadau eithriadol mewn ymchwil ac arloesedd drwy ddarparu cyfleoedd cyllid ychwanegol.

M-SParc

Adeiladwyd M-SParc i ddarparu lle a gwasanaethau ategol ar gyfer prosiectau diwydiannol sy'n seiliedig ar wyddoniaeth. Darparu cefnogaeth ar gyfer datblygu clystrau arbenigo clyfar gan ganolbwyntio ar fasnacheiddio ymchwil, datblygiad ac arloesedd mewn ynni carbon isel ac yn yr amgylchedd.

Canolfan PYSGOD CREGYN

Bydd y Ganolfan yn cydweithio â busnesau i gyflwyno gwyddoniaeth i gefnogi twf a buddsoddiad trwy dechnolegau cynhyrchu a phrosesu newydd, nodi meysydd cynhyrchu newydd, amrywiaeth cynnyrch a goresgyn cyfyngiadau amgylcheddol ar dwf diwydiant, cynhyrchiant a marchnadwydd.

SEACAMS2

Yn cefnogi datblygu cyfleoedd economaidd mewn Carbon Isel, Ynni a'r Amgylchedd drwy arbenigo mewn defnydd masnachol o ymchwil ac arloesi mewn ynni adnewyddadwy morol (YAM), ymwrthedd i newid yn yr hinsawdd ac effeithlonrwydd adnoddau yng Nghymru.

Prosiect Ymchwil i Nodweddion Morol

Bydd gwaith ymchwil a datblygu arloesol yn sicrhau gosod tyrbinau ynni llanw yn ddiogel fesul cam ym Mharth Arddangos Morlais.

Mae **SMART Cymru** cyd-fuddsoddi mewn ymchwil, datblygu ac arloesi ym myd busnes er mwyn cyflawni twf cynaliadwy. Yn cefnogi busnesau i ddatblygu, gweithredu a mansachu cynnyrch, prosesau a gwasanaethau newydd.

Mae **SMART Expertise** yn cynnig cymorth ariannol i brosiectau cydweithredu arloesol sy'n galw am arbenigedd eang i brofi syniad neu ddatrys problem o fewn diwydiant.

Mae **SMART Innovation** yn cynnig cyngor a chymorth arloesol arbenigol a diduedd i fusnesau Cymreig sy'n dymuno ymgymryd ag Ymchwil a Datblygu.

Canolfan ar gyfer Biotechnoleg Amgylcheddol

Sefydlu cyfleuster ar gyfer canfod a chynhyrchu ensymau a biofoleciwlau o berthnasedd diwydiannol a ddefnyddir wrth gynhyrchu bwyd, cynhyrchion fferyllo, technoleg amaethyddol, deunyddiau newydd a glanhau amgylcheddol wrth i ddatrysiadau biolegol gael eu darganfod sy'n disodli prosesau cemegol.

Canolfan Ragoriaeth Prosesu Signalau Digidol (DSP)

Yn cynnal ymchwil arbenigol iawn i systemau cyfathrebu digidol megis rhwydweithiau ac ecosystemau 5G. Cydweithio'n agos gyda phartneriaid academiaidd a diwydiannol Cymreig a rhyngwladol i ddarparu ystod eang iawn o gymwysiaid prosesu signalau sy'n hanfodol yn economaidd.

Canolfan Arbenigedd Ffotoneg (CPE)

Uno holl allu ymchwil Cymru yn ymwneud â Ffotoneg i ddarparu datrysiadau ffonoteg traws-sector, wedi eu llywio gan ddiwydiant, gan gryfhau'r farchnad ffotoneg ar gyfer buddsoddiad yn y dyfodol i ddatblygu economi Cymru.

Ganolfan Ynni Effeithlon Craff (SEEC)

Yn ganolfan ymchwil sy'n gweithio ar draws tri sector ynni carbon isel: ynni morol, ynni niwclear a strwythurau sy'n defnyddio ynni'n effeithlon. Mae'r tri thema wedi'u cydgyssylltu gan hyb seiberseilwaith cyffredin.



CYNGOR SIR
YNYNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL



Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council



CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL



CYNGOR
Wrexham
Wrexham
COUNTY COUNCIL



M-SPARC - Ynys Môn

Adeiladwyd M-SParc i ddarparu lle a gwasanaethau ategol ar gyfer prosiectau diwydiannol sy'n seiliedig ar wyddoniaeth. Darparu cefnogaeth ar gyfer datblygu clystyrau arbenigo clyfar gan ganolbwyntio ar fasnacheiddio ymchwil, datblygiad ac arloesedd mewn ynni carbon isel ac yn yr amgylchedd

Wedi'i agor yn swyddogol yn 2018 fel Parc Gwyddoniaeth cyntaf Cymru, mae M-SParc yn gartref i arloesedd a chyffro yng Ngogledd Cymru. Sefydlwyd M-SParc i yrru arloesedd yn ei flaen a darparu twf economaidd. O weithdai i blant ac ysgolion, sgysiau a chynadleddau i fusnesau, i ddatblygu datrysiadau newydd ac arloesol. Gyda chymorth busnes arbenigol ar gael i bob tenant i helpu busnesau i ffynnu a thyfu yng Ngogledd Cymru. Bydd M-SParc yn tanio'r economi, yn ysbrydoli'r bobl ac yn arloesi dros yr amgylchedd; i gyd dros Gymru gynaliadwy!

Mae M-SParc yn hwyluso digwyddiadau gyda phartneriaid gan gynnwys Microsoft a Google, tra hefyd yn rhoi sylw i'r dalent leol fwyaf disglair a gorau gyda digwyddiadau sector-benodol. Mae plant a phobl ifanc yn dod â'r gofod yn fyw pan fyddant yn mynychu digwyddiadau STEM, gan helpu i bontio'r bwlch sgiliau a chreu cyfleoedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Gyda dros 70 o denantiaid a rhith-denantiaid yn galw M-SParc yn gartref, mae digon o gyfle i gydweithio. Mi 'da ni'n darparu cymorth busnes pwrpasol i'n holl denantiaid, gan sicrhau bod gennych fynediad at gyngor arbenigol sy'n benodol i'ch sector. Anogir tenantiaid i ymuno â'n brecwastau a'n barbeciws rheolaidd i glywed gan arbenigwyr yn y rhanbarth, ac i wneud y gorau o rwydweithio rhwng cymheiriaid. Dewch i ymuno â'n cymuned.



Datgelu cynlluniau ar gyfer ail adeilad uchelgeisiol ar Barc Gwyddoniaeth

Mae parc gwyddoniaeth pwrpasol cyntaf Cymru yn datgelu cynlluniau ar gyfer datblygu ail adeilad ar eu safle yn Ynys Môn, wrth i'r adeilad cyntaf nesáu at fod yn llawn. Bydd y gofod ychwanegol yn galluogi Parc Gwyddoniaeth Prifysgol Bangor: M-SParc i barhau â'i waith yn cefnogi busnesau i dyfu, gan greu gyrfaoedd sy'n talu'n dda i bobl leol, ac ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol.



Dim ond 5 mlynedd ar ôl i M-Sparc agor drysau ei adeilad cyntaf, mae'n barod i dyfu eto! Gan ganolbwyntio ar gefnogi cwmnïau ac ymchwil yn y sector carbon isel, a datblygu cyfleoedd sgiliau a chyflogaeth, bydd M-SParc 2.0 yn helpu i gyflawni cenhadaeth M-SParc i danio uchelgais ac arloesedd i gael Cymru gynaliadwy.

Mae'r gofod ychwanegol yn galluogi M-SParc i barhau i sicrhau bod gyrfaeodd sy'n talu'n dda yn cael eu creu yn y rhanbarth. Mae'r gyrfaeodd hyn yn cynnwys swyddi technegol ac ymchwil, ond hefyd y swyddi eraill sydd eu hangen mewn cwmnïau, gan gynnwys marchnata, cyfrifyddu a chymorth gweinyddol. Mae cwmnïau yn M-SParc yn talu cyflogau sy'n fwy na £5,000 y flwyddyn yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae'r adeilad newydd eisoes wedi cael caniatâd cynllunio amlinellol, a bydd yn cael ei ddylunio i gyd-fynd â dyluniad tirwedd presennol safle'r parc gwyddoniaeth.

Dywedodd Pryderi ap Rhisiart, Rheolwr Gyfarwyddwr M-SParc,

“Rydyn ni'n edrych ymlaen at wneud y cyhoeddiad hwn o'r diwedd, ac yn enwedig wrth i ni glywed am statws Porthladd Rhydd Ynys Môn, a'r brys cynyddol ynghylch datgarboneiddio'r wlad, ni all hyn ddigwydd ar amser gwell.”

Mae M-SParc 2.0 yn canolbwyntio ar y sector carbon isel, ac mae'n adeiladu ar gryfderau ymchwil y Brifysgol. Mae gan M-SParc eisoes dîm 'Egni' Carbon Isel sydd wedi bod yn ymchwilio ac yn cynnal digwyddiadau yn y sector, yn cynnal adolygiadau Carbon Isel ar gyfer cwmnïau ar draws y rhanbarth, ac yn gweithio tuag at sicrhau mai M-SParc ydy'r parc gwyddoniaeth cyntaf yn y DU i gyrraedd Sero Net erbyn 2030.

Sefydlwyd M-SParc gan y Brifysgol i arallgyfeirio'r economi, creu gyrfaeodd sy'n talu'n dda, a sicrhau nad oes rhaid i gwmnïau adael y rhanbarth wrth iddynt dyfu. Cyflawnwyd yr amcan hwn, ond bydd M-SParc yn parhau i weithio'n galed i sicrhau bod Gogledd Cymru yn adnabyddus am arloesi. Mae dros 200 o yrfaeodd newydd wedi cael eu creu ers 2018, a gyda mentrau fel Dewch yn Ôl i helpu'r rheini sydd wedi gadael i symud yn ôl i Ogledd Cymru, a'r Academi Sgiliau i gefnogi pobl i ymuno â diwydiant, mae'r nifer hwn yn cynyddu o fis i fis. Mae M-SParc wedi dyblu maint y tîm yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac mae'n parhau i dyfu.

Dywedodd Is-ganghellor Prifysgol Bangor, Yr Athro Edmund Burke

“ Fel Prifysgol, rydyn ni'n falch iawn o gweld ein Parc Gwyddoniaeth yn datblygu cynlluniau i dyfu ac yn dangos uchelgais wirioneddol ar gyfer economi Gogledd Cymru.”

Bydd yr ehangu hwn yn parhau i greu gyrfaeodd sy'n talu'n dda i bobl ac yn ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol, gan ganolbwyntio hefyd ar gefnogi cwmnïau ac ymchwil yn y sector carbon isel drwy adeiladu ar gryfderau'r Brifysgol. Mae'r cynlluniau ar gyfer datblygu yn cyd-fynd â gwerthoedd Prifysgol Bangor a'n strategaeth ar gyfer y dyfodol, ac edrychwn ymlaen at weld yr effaith gadarnhaol a gaiff y prosiect hwn ar y gymuned.”

Ychwanegodd Pryderi

“Bydd yr adeilad newydd hefyd yn hwyluso ein gwaith i bontio'r bwlch sgiliau yn y rhanbarth ac i ddarparu cyflogaeth o werth uchel. Mae'n hanfodol fod pobl ifanc yn ymwybodol o'r cyfleoedd am yrfaeodd yn y rhanbarth, a'u bod yn gwybod nad oes rhaid iddynt adael i ddod o hyd i waith. Rydyn ni hefyd wedi mynd â M-SParc ar draws y rhanbarth i sicrhau bod pawb yn gallu manteisio ar gyfleoedd yn y sectorau gwyddoniaeth a thechnoleg, ni waeth pa mor wledig yw eu lleoliad. Mae'n gyfnod cyffrous iawn i fyw yng Ngogledd Cymru!”



Mentor Môn – Prosiect Ymchwil i Nodweddion Morol (MCRP)

Bydd gwaith ymchwil a datblygu arloesol yn sicrhau gosod tyrbinau ynni llanw yn ddiogel fesul cam ym Mharth Arddangos Morlais.

Mae'r Prosiect Ymchwil i Nodweddion Morol (MCRP) yn brosiect ymchwil pwysig sy'n cael ei gynnal ym Mharth Morlais. Mae'r prosiect hwn, dan arweiniad Menter Môn yn cael ei ariannu yn rhannol trwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru, yn fenter sy'n ceisio sicrhau bod bywyd gwylt y môr yn cael ei ddiogelu wrth i dyrbinau ynni llanw gael eu defnyddio yn y parth.

Fel rhan o'r prosiect, mae tîm o arbenigwyr yn gweithio i ddatblygu Cynllun Monitro a Liniaru Amgylcheddol. Y nod yw casglu data ymchwil amgylcheddol gwerthfawr a fydd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu ynni llanw Morlais yn ogystal â chynlluniau tebyg eraill ledled y byd.

Er mwyn hwyluso'r broses o gasglu'r data pwysig hwn, mae'r MCRP wedi comisiynu bwi monitro amgylcheddol.


Dros yr wythnosau nesaf caiff yr bwi ei lansio o Gaergybi a bydd technoleg casglu data arno, yn cynnwys camerâu isgoch arwyneb a chamerau coch-gwyrdd-glas (RGB), yn ogystal â chamerau RGB o dan y dŵr, a mesuriadau cyflymder gwynt. Mae'r bwi yn felyn ac yn mesur 13m x 20m (llun wedi atodi). Bydd i'w weld o'r tir a bydd yn aros yn y lleoliad ger Ynys Lawd yn ystod 2023 - gweler y map ar gyfer yr union lleoliad.



Dros yr wythnosau nesaf caiff yr bwi ei lansio o Gaergybi a bydd technoleg casglu data arno, yn cynnwys camerâu isgoch arwyneb a chamêrau coch-gwyrdd-glas (RGB), yn ogystal â chamêrau RGB o dan y dŵr, a mesuriadau cyflymder gwynt. Mae'r bwi yn felyn ac yn mesur 13m x 20m (llun wedi atodi). Bydd i'w weld o'r tir a bydd yn aros yn y lleoliad ger Ynys Lawd yn ystod 2023 - gweler y map ar gyfer yr union lleoliad.

Geographic Coordinate	In Decimal Degrees	In Degrees Minutes Seconds
Latitude	53.294359 N	53° 17' 39.6924" N
Longitude	4.7127230 W	4° 42' 45.8028" W

Prif ffocws y gwaith hwn yw treialu dulliau casglu data gweledol yn ogystal â dadansoddi'r data a gasglwyd o amgylch y tyrbinau a ddefnyddir. Bydd y prosiect hefyd yn adnabod ac yn helpu'r tîm i ddysgu mwy am y mamaliaid sy'n byw yn yr ardal.



Bydd y canfyddiadau yn allweddol i dwf ynni llif llanw, gan y bydd y data o Ynys Môn ar gael ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy morol yn y dyfodol. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am unrhyw gynnydd a chanlyniadau o'r ymchwil pwysig hwn.



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL



Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council



CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL



Wrexham
COUNTY COUNCIL
WREXHAM
WRECSAM



Canolfan Ragoriaeth Prosesu Signalau Digidol (DSP)



Yn cynnal ymchwil arbenigol iawn i systemau cyfathrebu digidol megis rhwydweithiau ac ecosystemau 5G. Cydweithio'n agos gyda phartneriaid academiaidd a diwydiannol Cymreig a rhyngwladol i ddarparu ystod eang iawn o gymwysiadau prosesu signalau sy'n hanfodol yn economaidd..

Mae'r [Ganolfan Ragoriaeth Prosesu Signalau Digidol](#), gyda'r offer diweddaraf gwerth dros £3.5m (a fydd yn cynyddu i dros £5.5m erbyn 2024) yn rhan o'r Ysgol Cyfrifiadureg a Pheirianeg Electronig yng Ngholeg Gwyddorau'r Amgylchedd a Pheirianeg ym Mhrifysgol Bangor.

Sefydlwyd y Ganolfan Ragoriaeth Prosesu Signalau Digidol yn 2019 gyda £3.9m o gyllid gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru a derbyniodd £3m ychwanegol gan Fargen Twf y Gogledd drwy Fwrdd Uchelgais Gogledd Cymru, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn 2022.

Datblygu'r technolegau prosesu signalau digidol blaengar i alluogi systemau datblygedig a deallus gan ganolbwyntio ar dechnolegau cyfathrebu megis rhwydweithiau ffonau symudol 5G a'u hecosystemau cysylltiedig.

Mae ymgorffori algorithmau arloesol DSP i ddyfeisiau rhwydwaith yn ffordd gost-effeithiol o gyflymu rhwydweithiau, rhannu adnoddau rhwydwaith yn ddeinamig ac yn optimaidd a gweithredu dyfeisiau a reolir gan bŵer ar rwydweithiau carbon isel.

- Amcanion strategol allweddol y Ganolfan Prosesu Signalau Digidol yw:
- Dod yn un o sefydliadau ymchwil mwyaf llwyddiannus Cymru a denu cyllid ymchwil sylweddol i Gymru.
- Cydweithio'n agos â phartneriaid academiaidd a diwydiannol yng Nghymru ac yn rhyngwladol.
- Ehangu'r Ganolfan DSP yn yr hirdymor i ddod yn bwerdy o bwys rhyngwladol lle mae Prosesu Signalau Digidol yn y cwestiwn a rhoi hwb mawr i'r economi lleol.



CYNGOR SIR
YNYNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL



Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council



CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL



CYNGOR
Wrexham
Wrexham
COUNTY COUNCIL



Sêr Cymru II

Gan weithio ynghyd â chyllid Horizon 2020 i barhau i ddatblygu capasiti ar gyfer ymchwil arbenigol, mae'r cynllun hwn eisoes wedi cyflawni, annog a chyflymu enghreifftiau arbennig o gydweithio ym maes ymchwil ac arloesedd trwy ddarparu cyfleoedd ychwanegol am gyllid.

Hwb ar gyfer Rhaglen Sêr Cymru: Datblygu Safle Gwyddonol Dynamig yng Nghymru

Cyhoeddodd Vaughan Gething, Gweinidog Economi Cymru becyn cyllid £10miliwn ar gyfer rhaglen adnabyddus yn rhyngwladol Sêr Cymru dros 2023-24 a 2024-25.

Sefydlwyd i sicrhau rôl annatod gwyddoniaeth yn natblygiad economaidd a chenedlaethol Cymru, mae rhaglen Sêr Cymru wedi datblygu'n barhaus dros yr 11 mlynedd ddiwethaf.

Drwy alinio gyda chymhellwyr ymchwil, datblygu ac arloesi sy'n newid, mae wedi ymateb i newidiadau mawr, fel canlyniad economaidd Brexit ac effeithiau'r pandemig Covid-19.

Mae'r rhaglen wedi cynhyrchu £252 miliwn o incwm ymchwil yn erbyn £110 miliwn o fuddsoddiad gan Llywodraeth Cymru, sy'n profi'n gatalydd llwyddiannus i ddatblygu capasiti a gallu ymchwil yng Nghymru.

Mae hyn yn cynnwys cefnogi Cadeiryddion Ymchwil, myfyrwyr PhD, ymchwilwyr ôl-ddoethuriaeth a phrosiectau ymchwil blaengar, yn arbennig y rhai sy'n mynd i'r afael ag effeithiau Covid-19.

Bydd y cyllid newydd, Sêr Cymru IV, yn cefnogi amcanion Strategaeth Arloesol Llywodraeth Cymru. Mae'r strategaeth hon yn anelu i sefydlu Cymru fel cenedl arloesi arweiniol ac mae Sêr Cymru yn sefyll fel elfen ddarpariaeth hanfodol o'r Strategaeth.

Bydd y cyllid yn blaenoriaethu sectorau fel carbon isel, gwyddorau bywyd, peirianeg uwch a chyfrifiadura uwch. Bydd gweithgareddau sy'n debyg o gael eu hariannu yn cynnwys myfyrwyr PhD, gwobrau cynyddu gallu a Rhwydweithiau Ymchwil Cenedlaethol, i gyd yn unol â Bwriad Gwytnwch ac Ailadeiladu Economaidd Llywodraeth Cymru.

Dywedodd Vaughan Gething, Gweinidog yr Economi wrth gyhoeddi lansio Sêr Cymru IV:

“Mae gan wyddoniaeth gyfraniad hanfodol ac enfawr i'w wneud i fodloni'r amrywiol heriau a wynebir gan Gymru a gweddill y byd. Rwyf wrth fy modd gyda'r cynnydd a wnaed eisoes gan Sêr Cymru, yn arbennig gyda'r rhaglen y Cymoedd Technegol. Mae'r buddsoddiad rwy'n ei gyhoeddi heddiw yn dangos bod Cymru yn wlad hyderus a blaengar sy'n agored ar gyfer cydweithio gyda busnesau ac yn rhyngwladol.”

Wrth adleisio teimlad y Gweinidog Gething, pwysleisiodd yr Athro Jas Pal Badyal, FRS, Prif Gyngorydd Gwyddonol Cymru,

“Mae gwyddoniaeth yn ganolog i lwyddiant economaidd Cymru. Bydd y buddsoddiad hwn yn Sêr Cymru yn cefnogi ymyrraeth arall i ysbrydoli a magu cenedlaethau'r dyfodol o wyddonwyr gyda chymaint yn dibynnu arno.”

Bydd cam blaenorol rhaglen Sêr Cymru yn parhau'n weithredol tan ddiwedd Mehefin 2023 pan ddaw cyllid Ewropeaidd ar gyfer y rhaglen i ben.




Canolfan Ynni Effeithlon Craff - SEEC

Yn ganolfan ymchwil sy'n gweithio ar draws tri sector ynni carbon isel: ynni morol, ynni niwclear a strwythurau sy'n defnyddio ynni'n effeithlon. Mae'r tair thema wedi'u cydgyssylltu gan hyb seiberseilwaith cyffredin.

Mae SEEC yn ganolfan ymchwil "data mawr" rhyngddisgyblaethol £7M sy'n mynd i'r afael â blaenoriaethau o ran gwyddoniaeth ynni carbon isel. Mae'r SEEC wedi'i ariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, a weinyddir drwy Lywodraeth Cymru. Mae SEEC yn ddatblygiad strategol blaengar i Goleg Gwyddorau'r Amgylchedd a Pheirianeg sydd newydd ei sefydlu ym Mhrifysgol Bangor.

Bydd yn arwain arloesedd ynglŷn â'r ffordd fwyaf effeithiol o ddefnyddio uwch beirianeg, cyfrifiadureg a modelu i fynd i'r afael â heriau mawr i gynyddu cynaliadwyedd cyflenwad ynni a'r defnydd ohono, gan leihau'r effeithiau negyddol ar yr amgylchedd, yn arbennig allyriadau carbon net.

Bydd SEEC yn allweddol i sicrhau bod Cymru ar flaen y gad yn y chwyldro technolegol hwn, sy'n un o'r prif flaenoriaethau i fynd i'r afael ag ef yn yr argyfwng presennol yn gysylltiedig â'r hinsawdd.



Mae SEEC yn cwmpasu tri sector ynni carbon isel (ynni morol, ynni niwclear, a strwythurau sy'n defnyddio ynni'n effeithlon), wedi'u cysylltu gan hyb seiberseilwaith.

Mae SEEC yn ganolfan ymchwil ac arloesedd, a'i nod penodol yw datblygu ymhellach yr arbenigedd byd-enwog mewn ymchwil ynni carbon isel ym Mhrifysgol Bangor, gan arwain at ddenu grant pellach yn y maes ymchwil hwn.